

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cyfadrn Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, CF45 4UQ

Dyma hysbysiad yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Cyngor RhCT), ac yntau wedi ymgynghori â'r bobl hynny yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori â nhw, yn cynnig:

1. Cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun a chodi adeilad ysgol newydd. Bydd yr adeilad ysgol newydd ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed ac yn cael ei godi ar safle presennol Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd Cyngor RhCT yn parhau i gynnal yr ysgol. Ysgol Gynradd Hirwaun, Heol Glannant, Hirwaun, Aberdâr, CF44 9NF.
2. Newid categori iaith Ysgol Gynradd Penderyn o'i statws dwy iaith i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd yr ysgol ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed ac yn parhau i gael ei gynnal gan Gyngor RhCT. Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, Pontprenllwyd, Penderyn, Aberdâr, CF44 9JW.

Ymgymerodd Cyngor RhCT â chyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynigion yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig, a barn Estyn ar gael ar wefan y Cyngor <http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/Schoolconsultations.aspx>.

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma erbyn 1 Medi 2021.

Nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Hirwaun ar hyn o bryd yw 265 ynghyd â'r Ysgol Feithrin a bydd nifer y lleoedd yn cynyddu i 390 ynghyd â'r Ysgol Feithrin. Y nifer derbyn i'r Dosbarth Derbyn ar gyfer disgyblion 4 oed yn yr ysgol newydd fydd 55 (yn y flwyddyn ysgol gyntaf ar ôl i'r cynigion gael eu rhoi ar waith). Bydd 60 o leoedd meithrin.

Fydd dim newid o ran nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gymraeg Gymuned Penderyn (231 o leoedd). Bydd y nifer derbyn ar gyfer Ysgol Gymraeg Gymuned Penderyn yn parhau i fod yn 33.

Bydd cludiant ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor RhCT. Ar hyn o bryd, mae Cyngor RhCT yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu'i ysgol gynradd, babanod neu ysgol iau berthnasol, os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i 1.5 o filltiroedd cerdded o'r ysgol honno, neu os nad oes ffordd cerdded ar gael. Ysgol y dalgylch, neu'r ysgol agosaf, ydy'r 'ysgol berthnasol'.

Caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion yma cyn pen 28 diwrnod o'u cyhoeddi, hynny yw, erbyn Mawrth 15 2019. Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ. E-bost: CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk.

Bydd Cyngor RhCT yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 7 niwrnod o benderfynu ar y cynnig.

Gaynor Davies

Llofnod:
Gaynor Davies
Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant

ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Dyddiad: 13 Chwefror 2019